# Ysgol Aberconwy

Inspire · Support · Succeed
Ysbrydoli · Cefnogi · Llwyddo

# Polisi'r Iaith Gymraeg a Dwyieithrwydd

| | |
|---|---|
| **DOGFEN BOLISI RHIF: 43** | **RHIFYN: 4** |

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL LLAWN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 12/12/23**

**Dyddiad adolygu: 01/12/26** **Cyswllt TA : MLB**

# Polisi'r Iaith Gymraeg a Dwyieithrwydd

## Egwyddorion

**Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol, ond rydym yn credu ei bod yn her werth chweil a bod angen i ni osod uchelgais o'r fath os ydym am sicrhau hyfywedd yr iaith ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Mae addysg yn ganolog i'n gweledigaeth, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein pobl ifanc yn gadael y system addysg yn barod i ddefnyddio'r iaith ym mhob cyd-destun ac yn falch o gael gwneud hynny.

Y brif neges yn y ddogfen hon yw bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Os ydym am wireddu hynny, mae'n rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r daith – boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn siaradwyr Cymraeg sy'n gyndyn i ddefnyddio'r iaith, yn siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, neu'n bobl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan bawb ran i'w chwarae, ac rydym am i bawb gyfrannu at wireddu ein huchelgais.

Drwy godi lefel ein disgwyliadau a mabwysiadu gweledigaeth uchelgeisiol, mae gennym y potensial i newid y rhagolygon ar gyfer yr iaith. Gyda'n gilydd, gallwn ei gwneud yn bosib i'r Gymraeg dyfu, a chreu Cymru wirioneddol ddwyieithog ag iaith fyw i bawb".

Yn unol â strategaeth 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' y Llywodraeth, rydym ni yn Ysgol Aberconwy wedi ymrwymo i gynnal a datblygu ymhellach ethos dwyieithog. Mae addysg yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru ac rydym yn cefnogi'r weledigaeth bod pobl ifanc yn dod allan o'r system addysg yn barod ac yn falch i ddefnyddio'r iaith ym mhob cyd-destun.

Mae Ysgol Aberconwy yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu polisi iaith Sir Conwy yn ei gweinyddiad, ei bywyd bob dydd a'i threfniadau bugeiliol, yn ogystal ag yn ei darpariaeth academaidd.

## Pwrpas

Mae polisi dwyieithrwydd Ysgol Aberconwy yn anelu at sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael y cymhelliant addysgol i feithrin sgiliau iaith, a fydd yn arwain at ddwyieithrwydd a sgiliau priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Y nod yw caniatáu i blant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol ddeall a defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg i fynegi eu hunain, eu teimladau, eu syniadau, eu gwybodaeth a'u dychymyg. Bydd hyn yn sicrhau parhad a datblygiad addysg ddwyieithog o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae gan y Corff Llywodraethol, y Pennaeth a'r staff ymrwymiad i hybu dwyieithrwydd. Cyfrifoldeb pob aelod o staff yw cyflawni'r cynllun hwn.

## Amcanion

1. **Mae'r iaith Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy fel cyfrwng cyfathrebu perthnasol, uchel ei barch a naturiol drwy'r ysgol.**
2. **Mae'r iaith Gymraeg yn amlwg, yn ddeinamig ac wedi'i hintegreiddio i'r Addysgu a Dysgu yn Ysgol Aberconwy ym mhob adran ac yn darparu ymwybyddiaeth o'r dimensiwn Cymreig yn narpariaeth y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.**
3. **Cyfoethogir profiadau disgyblion gan ddigwyddiadau sydd yn rhan annatod o fywyd yr ysgol.**

## Ymarfer

Saesneg yw prif gyfrwng addysgu Ysgol Aberconwy, gyda'r Gymraeg yn cael ei haddysgu'n bennaf fel ail iaith ar draws pob oedran ac ystod gallu. Mae gan ddisgyblion yr opsiwn i barhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf gyda chefnogaeth addysgu dwyieithog mewn rhai meysydd lle bo modd. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn cyflwyno rhaglen astudio'r Gymraeg ar y lefel briodol hyd at ddiwedd CA4.

Mae Ysgol Aberconwy yn:

- sicrhau amser addysgu digonol, staff arbenigol a hyfforddiant mewn swydd i alluogi'r polisi i gael ei weithredu'n effeithiol;
- annog cynnydd mewn parhad a chyflawniad o flwyddyn i flwyddyn, trwy adolygu'r cynllun gwaith a'r dulliau addysgu yn rheolaidd;
- anelu at ddarparu deunyddiau sy'n ysgogi'r profiadau ieithyddol a gynigir i ddisgyblion;
- sicrhau ethos sy'n gwireddu potensial cyfathrebol Cymraeg llafar ac ysgrifenedig;
- creu cyfleoedd i bwysleisio treftadaeth lenyddol Cymru.

**Dylai pob athro sy'n addysgu Cymraeg wneud y canlynol**:-

- Datblygu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu er mwyn galluogi disgyblion i gyfathrebu'n effeithiol trwy siarad ac ysgrifennu, i ddarllen er pleser ac i chwilio am wybodaeth;
- Datblygu sgiliau iaith mewn sefyllfaoedd dysgu priodol sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith sy'n cwrdd ag anghenion yr oes;
- Gwerthfawrogi'r amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol sydd gan ddisgyblion;
- Sicrhau bod deunydd priodol ar gael ar gyfer oedran y disgybl a'r pwrpas dysgu;
- Cynorthwyo disgyblion i ddeall sut mae iaith yn gweithio a sut y gall iaith ddylanwadu ar bobl a digwyddiadau;
- Creu ymwybyddiaeth o'r gwahanol gyd-destunau y defnyddir iaith ynddynt a datblygu'r gallu i ddewis yr iaith briodol yn unol â hyn;
- Sicrhau bod iaith yn cyfoethogi profiad pob plentyn yn Ysgol Aberconwy ac yn gwella eu gallu i gyfrannu at gymdeithas ddwyieithog.

**Mewn gwersi eraill ar draws y cwricwlwm, dylid rhoi profiadau dysgu priodol i bob disgybl er mwyn hybu eu cyflawniad yn y canlynol**:-

- Gwrando'n astud ac yn feirniadol mewn gwahanol sefyllfaoedd, a dangos dealltwriaeth o ran ymateb llafar a gweithredol;
- Siarad yn glir, yn rhugl ac yn hyderus gyda gwahanol bobl mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion;
- Darllen ystod o ddeunydd er pleser, gwybodaeth a dealltwriaeth;
- Datblygu ymwybyddiaeth o dreftadaeth lenyddol Cymru;
- Datblygu defnydd, mwynhad a dealltwriaeth o’r cyfryngau, technoleg gwybodaeth a drama;
- Ysgrifennu'n glir, yn effeithiol ac yn ddiddorol er mwyn cyfleu ystyr, gwybodaeth, barn, teimlad a dychymyg;
- Addasu mynegiant i wahanol ddibenion ac ar gyfer darllenwyr gwahanol;
- Ysgrifennu'n gywir a sensitif a chyflwyno gwaith mewn modd clir a deniadol.

# Darpariaeth

Mesurau i gyflawni Amcan 1

**Mae'r iaith Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy fel cyfrwng cyfathrebu perthnasol, uchel ei barch a naturiol drwy'r ysgol**

- Mae gan aelod o dîm arwain yr ysgol gyfrifoldeb am ddatblygiad y Gymraeg a dwyieithrwydd.
- Mae cydlynydd dwyieithrwydd yn eu lle.
- Mae holl lythyrau rhieni, cylchlythyrau a deunydd hyrwyddo'r ysgol yn ddwyieithog.
- Mae holl femos mewnol ysgol gyfan, polisïau a phrofformas, pan fo'n ymarferol, yn ddwyieithog.
- Mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog.
- Mae'r holl ddisgyblion yn astudio Cwrs Cymraeg priodol yn CA4.
- Disgyblion da / rhugl wedi'u nodi gan y tîm dysgu Cymraeg i annog yr holl staff i gyfathrebu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.
- Mae'r staff yn cyfarch disgyblion yn Gymraeg ac yn defnyddio Cymraeg achlysurol mewn gwersi.
- Mae holl diwtoriaid dosbarth Blwyddyn 7 ac athrawon ABGI yn siaradwyr Cymraeg ac yn cyflwyno'r sesiynau hyn yn ddwyieithog.
- Mae elfen Gymreig ym mhob gwasanaeth.
- Mae arwyddion a phosteri dwyieithog yn cael eu harddangos yn amlwg o amgylch yr ysgol, e.e. ffreutur, prif fynedfa, neuadd, llyfrgell ac ati.
- Mae byrddau arddangos yn ddwyieithog. Yn dilyn polisi Conwy, a chydnabyddiaeth o'u statws swyddogol, dylid rhoi statws cyfartal i'r ddwy iaith (yr un maint ffont ayb) gyda'r Gymraeg ar y chwith.
- Ymwelwyr â'r ysgol yn cael eu cyfarch yn Gymraeg gan staff y swyddfa.
- Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos yn cael ei rannu yn y bwletin wythnosol.
- Cofrestrau ym mhob gwers, ac eithrio ieithoedd modern, i'w galw yn Gymraeg.
- Rhai ymadroddion Cymraeg i'w defnyddio ym mhob gwers.
- Gwaith Dosbarth / Gwaith Cartref yn Gymraeg ar bob darn o waith. Dylai teitlau fod yn ddwyieithog lle bo modd. Dylid ysgrifennu’r Diwrnod/Mis yn Gymraeg.
- Sylw Cymraeg ar adroddiadau.
- RHAID i bob cyfathrebu allanol fod yn ddwyieithog.
- Dylai dogfennau mewnol a rennir gyda’r staff cyfan fod yn ddwyieithog.
- Mae ‘Trac yr Wythnos’ yn hybu cerddoriaeth a diwylliant Cymru.
- Mae’r staff yn sicrhau defnydd o’r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.
- Cynigir gweithgareddau a phrofiadau cyfoethogi er mwyn datblygu defnydd a mwynhad dysgwyr o’r Gymraeg.
- Mae cymuned yr ysgol yn annog y defnydd o’r Gymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth.

- Mae pencampwyr yr iaith Gymraeg yn annog eu cyfoedion i ddefnyddio mwy o Gymraeg o fewn a'r tu allan i'r ysgol.
- Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys ymrwymiad clir i ddatblygu dwyieithrwydd.
- Mae'r holl staff yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygiad iaith a diwylliant Cymru.

## Mesurau i fodloni Amcan 2

**Mae'r iaith Gymraeg yn amlwg, yn ddeinamig ac wedi'i hintegreiddio i'r Addysgu a Dysgu yn Ysgol Aberconwy ym mhob adran ac yn darparu ymwybyddiaeth o'r dimensiwn Cymreig yn narpariaeth y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.**

- Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi'i wreiddio mewn cynlluniau gwaith ar draws y cwricwlwm.
- Maen prawf Cymraeg / dwyieithrwydd wrth arsylwi gwersi cydweithwyr.
- Mae portffolios disgyblion Cymraeg CA2/3 a CA3/4 yn sicrhau ymwybyddiaeth glir o gyflawniadau disgyblion ac yn dangos dilyniant clir ar draws y Cyfnodau Allweddol.
- Defnydd effeithiol o ddata asesu i gynllunio camau nesaf datblygiad ieithyddol disgyblion.
- Disgyblion i gael eu haddysgu'n ddwyieithog lle bo'n bosibl yn CA3.
- Mae cymuned yr ysgol yn deall ac yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.
- Mae'r holl staff ac adrannau yn dangos ymrwymiad i weithio tuag at a chyflawni'r gwobrau iaith adrannol ac mewn dilyniant parhaus trwy'r lefelau.

## Mesurau I fodloni Amcan 3

**Cyfoethogir profiadau disgyblion gan ddigwyddiadau sydd yn rhan annatod o fywyd yr ysgol.**

- Dethlir Dydd Gŵyl Dewi yn ystod yr wythnos berthnasol trwy gynnal gwasanaeth Cymraeg a gweithgareddau neu gystadlaethau sy'n ffocysu ar ddiwylliant Cymru.
- Teithiau Cymraeg UG/U2 i gefnogi astudio testunau llenyddol.
- Ymweliad blynyddol gan amrywiol siaradwyr gwadd.
- Cysylltiadau allgyrsiol gyda'r Urdd sy'n hybu'r Gymraeg e.e. cystadlaethau chwaraeon yr Urdd, Eisteddfod yr Urdd, Gemau giamocs, ymweliadau â Glan Llyn.
- Y Caban – lle i ddisgyblion gymdeithasu gan ddefnyddio'r iaith amser cinio trwy weithgareddau wedi'u cynllunio.
- Datblygu sgiliau iaith Gymraeg staff drwy gyrsiau amrywiol gan gynnwys y cwrs 'Dweud rhywbeth yn Gymraeg' a dathlu llwyddiannau gyda 'Seren Iaith' yn y bwletin wythnosol.
- Eisteddfod ysgol flynyddol yn nhymor y Gwanwyn.
- Dathlu'r Su'mae / Dydd miswig Cymru.